

in the sweet bye & bye

John Paul Evans

“in the sweet bye & bye - fragments of memory in the wake of mo(u)rning”

Yn sicr, nid gorliwio pethau fyddai dweud na fu fy nhad a finnau erioed yn gweld llygad yn llygad. Er mai fi oedd y plentyn ifancaf ac yn rhannu'i enw bedydd, eneidiau ar siwrnai wahanol oedden ni.

Ro'n i'n dal i fyw gartref pan aeth yn ddifrifol sâl. Roedd fy mrodyr wedi gadael sawl blwyddyn ynghynt a'u cartrefi a'u teuluoedd eu hunain ganddyn nhw. Yn hytrach na chyflawni fy rôl fel gofalwr a mab ufudd a ffyddlon, mi gefnais ar fy nghyfrifoldebau a dyma'r mân jobsys beunyddiol yn syrthio i ran ei ffrind agos oedd yn byw ychydig ddrysau i lawr y ffordd yn yr un rhes o dai cyngor.

Roedd fy nhad a'i ffrind ill dau wedi tyfu i fyny yn yr un pentre ac fel oedolion roeddent wedi mynd i weithio ar y rheilffordd ar adeg pan oedd cludo glo'n chwarae rhan bwysig yn ffyniant y wlad. Dyn caredig a gofalgwr oedd ei ffrind y byddai pobl wedi cyfeirio ato fel 'hen lanc go iawn' yn ei ddydd. Yn ystod blynyddoedd fy nglaslencyndod, bu'n gocyn hitio i rai o'r arddegwyr lleol. Yn aml, bydd pentrefi bach yn cael eu clodfori fel lleoedd sy'n cynrychioli enaid rhyw hunaniaeth genedlaethol, ond gallant fod yn fannau lle nad oes croeso i enghreifftiau o 'arwahanrwydd'.

Ar ôl marwolaeth fy nhad, symudais i ddinas gerllaw ac er i mi gadw mewn cysylltiad, byddwn yn ymweld â ffrind fy nhad yn llai llai aml. Pan glywais i am ei farwolaeth mi es i ar fy mhen fy hun i'w angladd. Roeddwn i wedi bod mewn perthynas â Peter ers dros 20 mlynedd, ond roedd i'w weld yn amhriodol i mi ailymweld â chartref fy mebyd yng nghwmni fy mhartner o'r un rhyw, hyd yn oed os mai coffáu enaid hoff ac annwyl a fuasai'n gymaint o help i mi mewn cyfnod anodd oedd fy mwriad. Dyma rym cyflyru cymdeithasol bore oes.

Es i eistedd yng nghefn yr eglwys Anglicanaidd ar gyfer y gwasanaeth. Yn ein pentref ni, roedd yn ymddangos mai'r eglwys Anglicanaidd oedd y man ymgynnull i bobl

fwy cyfforddus na'i gilydd hyd y gallwn ei ddirnad a finnu wedi fy magu yn fy mlynnyddoedd cynnar yng nghapel lleol y Bedyddwyr.

Mae'n debyg i mi gael fy medyddio yn yr eglwys Anglicanaidd. Gyda fy mam yn Gatholig, roedd hi am i mi gael fy medyddio yn y 'wir ffydd' ond gwrthododd fy Medyddiwr o dad yn gyfan gwbl, felly cafwyd cyfaddawd drwy droi at eglwys Loegr neu Gymru yn yr achos yma. Mi deimlais y sbardunau emosiynol sydd bob amser i'w cael mewn sefyllfaoedd o'r fath ac ro'n i'n benderfynol o aros yn ddigynnwrf nes i emyn gael ei ganu ar y diwedd ar gais yr ymadawedig. Mae geiriau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg gan S. Fillmore Bennett yn cynnwys y llinell gytgan ddolefus, "In the sweet bye & bye, we shall meet on that beautiful shore" a daniodd fy atgofion cynnar o'r Bedyddwyr gan agor y fflodiart a llifodd fy nagrau'n ddiatal.

Yn aml, bydda i'n meddwl am ffrind fy nhad pan fydda i'n mynd am fy nhro boreol i Otter Head, lle mae afon Otter yn cwrdd â'r môr yn y dref lle dw i'n byw erbyn hyn. Roedd yn gwneud i mi eisiau creu ymateb gweledol fel cofiant personol i dreigl amser gyda fy mhartner Peter, sydd bellach ar drothwy ei wythdegau.

Pan ddechreuais i'r gwaith hwn, cafodd fy mam strôc anferthol a bu farw ddeuddydd yn ddiweddarach yn yr ysbyty. A hithau'n gantores yn y clybiau nos, mae ei phresenoldeb glamoraidd yn ymdreiddio i'r rhan fwyaf o'm hatgofion cynnar fel plentyn wedi'i gyfareddu gan ei phroses o drawsnewid o fod yn fam i fod yn berfformwraig lwyfan. Yn fy arddegau, pan wnes i ddatgan fy mod i'n hoyw, roedd euogrwydd Catholig ei dylanwad yn cael ei hybu gan yr ystrydeb, "my mother made me a homosexual" y mae'r unig ateb gwerth chweil iddi yw "taswn i'n rhoi'r gwllân iddi a wnâi hi weu un i mi?". Ar ddiwrnod ei hangladd, cafodd fy ffrind agosaf ddamwain gar a fyddai, yn ddarwybod i ni ar y pryd, ddechrau 5 mis olaf ei fywyd. Mae'r digwyddiadau hyn i ryw raddau wedi bwrw eu cysgod dros beth oedd yn y lle cyntaf yn goffad i ffrind annwyl ac sydd wedi dod yn berfformiad o'r felan a cholled sy'n coffáu ymadawiad y rhai agosaf ac anwylaf i mi.

© John Paul Evans

Mae'r testun hwn yn rhan o **What is lost... what has been**
Arddangosfa gan **John Paul Evans** yn **Oriel Mission**
26 Mawrth - 14 Mai 2022

Oriel Mission
Gloucester Place
Yr Ardal Forol
Abertawe, SA1 1TY
Y Deyrnas Unedig

www.missiongallery.co.uk
info@missiongallery.co.uk
+44 (0) 1792 652 016

Mission Gallery

